

Hawdd ei Ddeall



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

C. diff

Gwybodaeth am driniaeth gyda Thrawsblaniad
Microbiota Ysgarthol (Faecal Microbiota
Transplantation - FMT)



Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi ysgrifennu'r ddogfen hon. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Clostridioides difficile (C. diff) - gwybodaeth am driniaeth gyda thrawsblaniad microbiota ysgarthol (Faecal Microbiota Transplantation - FMT).'

Tachwedd 2024

ISBN: 978-1-83766-481-8

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a'r ystyr yn hawdd eu darllen a'u deall. Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen hon.



Efallai y bydd hi'n anodd deall y geiriau mewn **print glas trwm**. Gallwch chi wirio ystyr yr holl eiriau mewn glas mewn blwch o dan y gair.



I gael mwy o wybodaeth ewch i: icc.gig.cymru




This leaflet is also available in English. Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.




Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen hon yn fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Ffotosymbolau**. [I roi eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn cliciwch yma.](#)

[Rhif trwydded Ffotosymbolau 403527247.](#)

Beth yw C. diff?



Mae **C. diff** yn fyr am **Clostridioides difficile**. Mae'n cael ei alw yn aml yn **C. diff** neu **C. difficile**. Math o fyg neu germ yw e.




Mae **C.diff** fel arfer yn ddiniwed ond mae'n gallu tyfu ac achosi haint pan fyddwch chi'n cael rhai meddyginiaethau fel gwrthfotigau neu gemotherapi.



Mae gwrthfotigau fel arfer yn lladd germau **C. diff** ac yn gwella'r haint. Weithiau mae dolur rhydd (pŵ rhydd) sy'n cael ei achosi gan haint **C. diff** yn gallu dod nôl.


Beth yw FMT?



Ystyr **FMT** yw **Faecal Microbiota Transplantation** neu **Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol** yn Gymraeg.



Mae triniaeth **FMT** yn golygu defnyddio pŵ rhywun iach sydd â germau 'da' ynddo. Mae'n cael ei roi ym mherfedd y person â'r haint **C. diff** sy'n dod nôl o hyd.



Mae hyn yn helpu'r claf i gael y lefel gywir o germau da i'w helpu i ymladd haint **C. diff**.

Pam ddylwn i gael FMT?



Mae cleifion sy'n cael haint **C. diff** arall hyd yn oed ar ôl cael gwrthfotigau i'w drin mewn mwy o berygl o fynd yn sâl eto.



Mae **FMT** yn cael ei argymhell pan dydy gwrthfotigau ddim wedi gwella'r haint **C. diff**.



FMT yw'r ffordd orau o drin **C. diff** sy'n dod nôl o hyd. Mae 9 o bob 10 o bobl yn gwella ar ôl cael triniaeth **FMT**.



Mae 1 o bob 5 o bobl yn gallu cael haint **C. diff** eto ar ôl cael y driniaeth **FMT** gyntaf. Efallai y bydd angen ail driniaeth **FMT** arnyn nhw.

Beth yw'r risgiau o gael FMT?



Mae pob rhoddwr **FMT** yn cael ei wirio i wneud yn siŵr ei fod yn iach a bod dim heintiau hysbys fel HIV, sifflis a hepatitis feirysol yn y pŵ.



Dydy pobl â rhai clefydau neu hanes o ganser ddim yn gallu bod yn rhoddwyr.



Mae gwybodaeth bersonol am y rhoddwr yn breifat.



Mae popeth posibl yn cael ei wneud i leihau'r siawns o ledaenu heintiau neu gyflyrau eraill drwy **FMT**.



Bydd eich tîm gofal iechyd yn siarad â chi am risgiau **FMT**.

Rhoi caniatâd i dderbyn FMT



Mae'n bwysig eich bod chi'n rhan o'r penderfyniadau am eich gofal a'ch triniaeth.



Dydd eich tîm gofal iechyd ddim yn gallu gwybod am bob germ sydd mewn pŵ rhoddwr. Gan fod risg fach o gael haint drwy **FMT** bydd y tîm gofal iechyd yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd.



Bydd y ffurflen ganiatâd yn dweud eich bod chi wedi cytuno i gael y driniaeth. Byddwch chi'n cadarnhau eich bod chi'n deall y driniaeth a'r risgiau.



Os yw eich tîm gofal iechyd yn argymhell **FMT** i chi, mae hynny oherwydd bod y risg o gael haint **C. diff** yn fwy na'r risg o gael **FMT**.

Sut i baratoi ar gyfer FMT



Mae **FMT** yn gallu cael ei roi drwy diwb tenau sy'n mynd drwy eich trwyn i lawr i'ch stumog.



Neu mae'n gallu cael ei roi drwy diwb hir, tenau drwy'r pen ôl. Mae hyn yn cael ei alw yn **colonosgopi**.

Mae **colonosgopi** yn defnyddio tiwb hir, tenau, hyblyg â chamera bach ar y pen. Mae'n cael ei roi yn eich perfedd drwy eich pen ôl.



Mae'n bosib rhoi **FMT** yn y ddwy ffordd yma yng Nghymru.



Dylech chi ddim fod yn gallu aroglu na blasu toddiant **FMT**, sut bynnag mae'n cael ei roi i chi.



Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn siarad â chi am y driniaeth orau i chi.



Byddwch chi'n cael gwrthfotigau am o leiaf 4 diwrnod cyn cael **FMT**. Bydd y gwrthfotigau'n stopio y noson cyn i chi gael **FMT**. Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn siarad â chi am hyn.



Rhaid i chi ddweud wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am unrhyw feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd. Byddan nhw'n dweud wrthoch chi os oes angen i chi stopio cymryd unrhyw feddyginiaethau.

Os bydd FMT yn cael ei roi drwy'r trwyn:



Byddwch chi'n cael tabled ar fore'r driniaeth i leihau'r lefelau asid yn eich stumog.



Byddwch chi hefyd yn cael ail dabled i helpu eich stumog i wagio i ran nesaf eich perfedd.



Bydd y tiwb yn cael ei roi yn eich stumog chi drwy eich trwyn ar ddiwrnod eich triniaeth. Bydd y toddiant **FMT** yn cael ei roi drwy'r tiwb.



Pan fydd toddiant **FMT** yn eich perfedd bydd y tiwb yn cael ei rinsio â halwynau carthu - mae hwn yn gymysgedd o ddŵr a halen - i lanhau'r tiwb. Mae'r tiwb yn cael ei adael i mewn am ychydig ac yna mae'n cael ei dynnu allan.



Mae rhai risgiau yn gysylltiedig â phob triniaeth feddygol. Os ydych chi'n cael eich triniaeth **FMT** drwy eich trwyn, mae risg bod toddiant **FMT** yn mynd i mewn i'ch ysgyfaint.



Dydy hyn ddim yn debygol o ddigwydd o gwbl. Bydd arbenigwyr yn cadw llygad fanwl ar y broses. Byddwch chi hefyd yn cael meddyginiaeth i leihau'r risg.

Os bydd FMT yn cael ei roi drwy colonosgopi:



Byddwch chi'n cael hylif i'w yfed ymlaen llaw i glirio pŵ o'ch perfedd.



Bydd y toddiant **FMT** yn cael ei roi yn eich perfedd drwy diwb sy'n mynd i mewn i'ch pen ôl.



Mae'n bosibl y bydd rhai cleifion yn cael sgîl-effeithiau ysgafn ar ôl cael **colonosgopi**. Mae hyn yn gallu cynnwys twymyn, bol chwyddedig, cyfogi a rhechu. Dylai hyn bara am ychydig ddyddiau yn unig.



Mae rhai risgiau yn gysylltiedig â phob triniaeth feddygol. Gall **colonosgopi** achosi gwaedu neu rwygo leinin wal y perfedd, ond dydy hyn ddim yn digwydd yn aml.



Os oes rhwyg i wal y perfedd efallai y bydd angen **trallwysiad gwaed** neu lawdriniaeth arnoch chi. Trallwysiad gwaed yw pan fydd **gwaed** rhywun arall yn cael ei roi i chi. Mae gwaed yn cael ei roi fel arfer am eich bod chi wedi colli llawer o'ch gwaed eich hun.



Rydych chi'n gallu cael mwy o wybodaeth am **colonosgopïau** ar wefan y GIG yma: www.nhs.uk/conditions/colonoscopy/.

Beth sy'n digwydd ar ôl cael FMT?



Os nad ydych chi'n aros yn yr ysbyty yn barod byddwch chi'n gallu mynd gartref yn fuan ar ôl triniaeth **FMT**.



Dylech chi allu bwyta ac yfed o fewn 1 awr o gael triniaeth **FMT**.



Os bydd **FMT** yn gweithio, byddwch chi fwy na thebyg yn mynd i'r toiled yn llai aml dau neu dri diwrnod ar ôl eich triniaeth. Dylai eich pŵ fynd yn llai rhydd.



Ar ôl 1 wythnos dylai eich pŵ fod bron yn normal.



Bydd eich tîm gofal iechyd eisiau siarad â chi eto i weld os yw'r driniaeth wedi gweithio.



Os ydych chi'n glaf mewn ysbyty, pan fyddwch chi'n gadael byddwch chi'n cael dyddiad ar gyfer apwyntiad dilynol. Byddwch chi'n cael gwybod os bydd angen i chi roi sampl pŵ.



Mae **FMT** yn driniaeth eithaf newydd. Mae'n bwysig casglu gwybodaeth am ba mor aml y mae'n gweithio, ac unrhyw sgîl-effeithiau - fel poen yn y bol a gwaedu.



90 diwrnod ar ôl eich triniaeth **FMT** bydd eich tîm gofal iechyd yn llenwi holiadur gyda chi i weld sut rydych chi'n teimlo ar ôl eich triniaeth.



Bydd eich tîm gofal iechyd yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd ac unrhyw sgîl-effeithiau rydych chi wedi'u cael a pha mor hapus ydych chi gyda'r driniaeth.



Bydd eich tîm gofal iechyd yn casglu'r wybodaeth ac yn anfon yr wybodaeth hon i'r man lle cafodd y toddiant **FMT** ei wneud.



Bydd eich enw a gwybodaeth bersonol yn breifat. Dim ond eich atebion fydd yn cael eu rhannu.



Os oes gennych chi gwestiynau neu os ydych chi'n poeni am C. diff, siaradwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.